Adolygiad Effaith LLUK

Asesu'r galw am ddysgu a sgiliau ar y gweithlu dysgu gydol oes

Gwerthusiad, Casgliadau a'r Camau Nesaf

Mai 2008

sgiliau
AR GYFER BUSNES

DYSGU GYDOL OES yn y DU
Sgiliau i Broffesiynolion Dysgu

Cyflwyniad i'r Adolygiad Effaith

Dysgu Gydol Oes y DU (LLUK) yw'r cyngor sgiliau sector (CSS) ar gyfer y sector dysgu gydol oes a chynrychioli mwy nag un miliwn o weithwyr ledled y DU yn gweithio mewn pump 'etholaeth':

> dysgu a datblygu cymunedol (DDC)

> addysg bellach (AB)

> addysg uwch (AU)

> llyfrgelloedd, archifdai a gwasanaethau gwybodaeth (LlAGG)

> dysgu yn y gwaith (DyyG).

Mae LLUK yn gyfrifol am ddatblygiad proffesiynol y rheiny sy'n gweithio yn y sector dysgu gydol oes, ac yn llais cyflogwyr dysgu gydol oes. Oherwydd hyn, mae LLUK yn meddiannu safle unigryw yn y Rhwydwaith Sgiliau ar gyfer Busnes o 25 o gynghorau sgiliau sector (CSS), gan gynrychioli ochr cyflenwad a galw cyflwyno sgiliau. Mae hyn oherwydd y bydd gwaith y 24 CSS arall yn y pen draw yn cael effaith ar y gweithlu dysgu gydol oes, yn anad dim trwy gytundebau sgiliau sector (SSA yn Saesneg).

Beth yw'r Adolygiad Effaith?

Mae'r Adolygiad Effaith yn weithgaredd unigryw o ran SSA LLUK ac mae'n canolbwyntio ar adolygu SSA y 24 CSS arall, er mwyn deall eu heffaith posibl ar gynllunio'r gweithlu yn y dyfodol a'u goblygiadau ar gyfer gweithlu'r sector dysgu gydol oes ledled y DU. Cynhaliwyd yr Adolygiad Effaith trwy ymchwilio a dadansoddi SSA y 24 CSS arall yn y rhwydwaith, a thrwy edrych am ffyrdd y gall LLUK gydweithio ar draws y Rhwydwaith Sgiliau ar gyfer Busnes, i sicrhau ansawdd cyflwyno dysgu i bawb. Mae'r diagram isod yn dangos safle LLUK rhwng yr ochrau galw a chyflenwi:



Adolygiad o Ddogfennau SSA

Cynhaliwyd yr asesiad SSA o fis Ionawr i fis Mawrth 2007. Yn ogystal â dadansoddiad systematig o'r cyfoeth o ddeunydd SSA sydd ar gael a gynhyrchwyd gan wahanol CSS, roedd yn cynnwys cyfres o asesiadau dilynol gyda CSS (yn unigol a thrwy grŵp ffocws).

Ymgymerwyd ag asesiadau dilynol unigol gyda naw[1] CSS ychwanegol, er mwyn manylu ymhellach ar yr hyn a oedd wedi'i gynnwys yn y ddogfennaeth SSA, i ddeall sut yr oedd blaenoriaethau wedi datblygu ers cyhoeddi'r SSA, a llenwi'r bylchau ar gyfer y CSS hynny sydd yn parhau yng nghamau cynnar iawb datblygu eu cytundebau.

Roedd dadansoddi dogfennaeth SSA yn nodi gweithrediadau a blaenoriaethau o fewn y cytundebau a gynhyrchwyd gan CSS eraill a oedd o bosibl yn berthnasol i'r gweithlu ar draws cyflogwyr dysgu gydol oes. Roedd yn bwysig nad oedd yr asesiad o gynlluniau gweithredu SSA yn fap o 'restr dymuniadau' gweithgaredd CSS posibl yn unig, ond yn ddadansoddiad mwy datblygedig o flaenoriaethau diriaethol a nodir gan bob CSS. Yn y cyd-destun hwn, roedd y dadansoddiad hefyd yn edrych ar effaith posibl pob gweithred ar weithlu dysgu gydol oes ac ar ddarpariaeth, ac yna, yn bwysig, darparu asesiad ansoddol o sylwedd tebygol pob gweithred (h.y. pa mor realistig a diriaethol oeddent).

Y prif werth o ddull yr Adolygiad Effaith oedd mapio a gwneud synnwyr o'r ystod o weithgareddau ar draws sectorau eraill. Mae hwn yn fan cychwyn hanfodol i LLUK er mwyn targedu a blaenoriaethu ei ymrwymiad yn y dyfodol. Roedd defnyddio'r SSA fel sylfaen ar gyfer datblygu'r trosolwg traws-sector hwn yn rhesymegol, oherwydd datblygodd pob CSS SSA ar gyfer a chyda'u sectorau, a gwnaethant hynny dan ddefnyddio fformiwla gyffredin, a oedd yn amlinellu blaenoriaethau, gweithredoedd a thystiolaeth.

Eto, roedd yr SSA fel proses, yn creu cyfaint enfawr o weithredoedd a blaenoriaethau ar draws y 24 CSS. Er mwyn i LLUK gael ymateb cydlynol, roedd yn rhaid i ddadansoddiad yr Adolygiad Effaith fod yn ddetholus i sicrhau ei fod yn ystyrlon. Roedd wedi cael ei strwythuro o amgylch cyfres o themâu, fel y gellid tynnu allan elfennau cyffredin blaenoriaethau a gweithredoedd arwynebol amlwg CSS. Roedd y themâu hyn yn ddefnyddiol wrth nodi ehangder a rôl bosibl LLUK ar draws yr ystod eang o weithredoedd SSA.

Efallai nad yw'n syndod y dangosodd adolygiad y ddogfen SSA **y gall ehangder cyfan o weithredu SSA bron effeithio ar y gweithlu dysgu gydol oes, i ryw raddau**. Efallai ei fod yn haws deall gweithredoedd nodweddiadol SSA *nad ydynt* yn effeithio ar y sector dysgu gydol oes, cefnogi busnes a pharatoi cyflogwyr ar gyfer buddsoddi mewn sgiliau (er, hyd yn oed fan hyn, mae yna bosibilrwydd am effaith anuniongyrchol).

[1] Roedd y rhain cynnwys: *Cogent;* Sgiliau Egni a Gwasanaeth; *GoSkills;* Sgiliau Llywodraeth; Pobl yn Gyntaf; Sgiliau ar gyfer Iechyd; Sgiliau er Cyfiawnder; Sgiliau ar gyfer Logisteg a *Skillsmart Retail*.

Nodi themâu cyffredin o ran y gweithlu dysgu gydol oes a darpariaeth

Roedd nodi'r sylfaen briodol ar gyfer dosbarthu, dadansoddi a thrafod themâu traws-dorrol felly yn rhan allweddol o'r broses Adolygu Effaith, fel nad oedd wedi arwain at greu 'gormod o sŵn'. Gellir dadlau, mai'r dasg hon a ychwanegodd y gwerth mwyaf o safbwynt dadansoddol. Nodwyd a phrofwyd cyfres o themâu (yn ailadroddol) er mwyn dechrau clystyru mathau o weithredu SSA:

1) **Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) i athrawon a darlithwyr** – Gweithgareddau i sicrhau bod sylfaen sgiliau yn y sector dysgu gydol oes yn bodloni anghenion presennol ac anghenion yn y dyfodol cyflogwyr.

   Er enghraifft:

   > pasport sgiliau ac offer eraill ar gyfer hunan-ddatblygu

   > cynlluniau diwydiant i alluogi diweddaru sgiliau.

2) **Cymwysterau newydd** – Datblygu cymwysterau newydd a meysydd dysgu lle mae cyflogwyr yn awgrymu bod yna fylchau yn y ddarpariaeth gyfredol.

   Er enghraifft:

   > diplomâu arbenigol

   > prentisiaethau

   > cymwysterau AU (graddau sylfaen; graddau; cymwysterau ôl-raddedig)

   > cyrsiau newydd er mwyn mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth alwedigaethol.

3) **Ffurfiau cyflwyno newydd** – Ffyrdd newydd o gyflwyno dysgu, yn enwedig mewn fformatau hyblyg a byr, a all effeithio ar strwythur y ddarpariaeth.

   Er enghraifft:

   > academïau sgiliau/Bothau Dysgu

   > dysgu ar sail credyd a chyfnodau dysgu byr

   > cyflwyno cyrsiau a chymwysterau yn hyblyg.

4) **Adeiladu gallu o fewn y sector dysgu gydol oes i ddarparu ar gyfer galw sy'n cynyddu** – Meysydd lle rhagwelir cynnydd yn y nifer o ddysgwyr ac sy'n debygol o effeithio ar ddarpariaeth.

   Er enghraifft:

   > cynllunio'r gweithlu sy'n trosi i gynnydd yn y nifer o ddysgwyr ar gyfer galwedigaethau penodol

   > rhaglenni 'cymhwyso'r gweithlu' ac 'uwchsgilio'r gweithlu'

   > prif feysydd blaenorol ar gyfer datblygu sgiliau lle mae crynswth allweddol o weithgaredd yn amlwg (rheoliadau newydd; llythrennedd, rhifedd a Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill; arweinyddiaeth a rheolaeth).

5) **Adeiladu gallu o fewn y sector dysgu gydol oes i sicrhau ansawdd cyflwyniad** – Gweithgareddau i sicrhau effeithiolrwydd y sector dysgu gydol oes.

   Er enghraifft:

   > gwella cysylltiadau rhwng diwydiant a'r sector dysgu gydol oes (e.e. datblygu a chyflwyno cynnwys ar y cyd)

   > rhaglenni 'hyfforddi'r hyfforddwr'

   > cynlluniau llysgenhadon diwydiant

   > hyrwyddo trosi o ddiwydiant i sector y darparwr (gan gynnwys recriwtio aseswyr a gwirwyr gyda phrofiad o ddiwydiant).

Roedd y themâu a ddatblygwyd ar gyfer y dadansoddiad yn gadarn, ac yn ddefnyddiol fel sylfaen ar gyfer deall y mathau o weithredu posibl.

Fodd bynnag, yr hyn ddaeth yn eglur oedd, **nid oedd amlinelliad o'r gweithrediadau a'r blaenoriaethau *posibl* yn ddigonol yn ei hun fel sylfaen ar gyfer cyd-weithio**.

Yn dilyn y dadansoddiad cychwynnol hwn, daeth yn amlwg bod cyfarfod yn uniongyrchol â CSS i drafod eu rhaglenni gwaith, yn hytrach na defnyddio'r wybodaeth a gesglir o ddogfennaeth SAA yn mynd i fod yn ffordd llawer mwy effeithiol o nodi meysydd cydweithio posibl.

Cyd-weithio

Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd un i un gyda nifer o CSS, gan ddefnyddio'r themâu a restrir uchod fel awgrymiadau, er mwyn nodi meysydd cyd-weithio posibl. Roedd canlyniad cadarnhaol i'r cyfarfodydd hyn yn ddibynnol ar nid yn unig y gallu i nodi yn ble y mae gweithgareddau sy'n cael effaith ar y gweithlu dysgu gydol oes (fel y gwna'r mwyafrif o CSS, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) ond yn fwy pwysig, wrth nodi gweithgareddau concrid gwirioneddol a fyddai'n darparu 'llwyddiant cyflym' i'r ddau barti.

Yn yr Alban, roedd cyfle i'r CSS gymryd rhan yn y prosiect recriwtio Tiwtoriaid Adeiladu, a ariannwyd gan Lywodraeth yr Alban. Roedd cysylltiadau hefyd, lle'r oedd cymwysterau LLUK ar gyfer athrawon, tiwtoriaid a hyfforddwyr yn gallu bod yn gyd-destunol ar gyfer sectorau eraill, fel gwasanaeth yr heddlu a'r Weinyddiaeth Amddiffyn, a fydd yn cael effaith ledled Cymru a Lloegr. Yn Lloegr, roedd cyfle i CSS ddod ynghlwm wrth y Rhaglen Catalydd, lle'r oedd ymglymiad y CSS yn hanfodol i lwyddiant y rhaglenni recriwtio.

Mae gweithgaredd arall sy'n gysylltiedig â hysbysu'r ochr gyflenwi ynglŷn â'r galw am sgiliau yn brosiect i gyflwyno nifer o adroddiadau Gwybodaeth y Farchnad Lafur sy'n canolbwyntio ar anghenion sgiliau cyflogwyr yn yr Alban. Bydd yr adroddiadau yn edrych ar ragamcaniadau sgiliau yn hytrach na data hanesyddol, gyda'r bwriad o gynorthwyo prifysgolion a darparwyr dysgu yn y gwaith yr Alban, i gynllunio eu darpariaeth hyfforddi er mwyn bodloni'r galw yn yr Alban yn y dyfodol. Mae hwn yn enghraifft o'r math o waith y gallai LLUK gyflawni mewn rhannau eraill o'r DU ac mewn partneriaeth â CSS – yn arbennig wrth i'r sector dysgu gydol oes symud i fodel cyflwyniad sydd yn fwy dan arweiniad galw.

Roedd gwaith ymchwil yr Adolygiad Effaith wedi rhoi man cychwyn da i LLUK ddechrau trafodaethau â CSS eraill am gyd-weithio. Fodd bynnag, nid dogfennaeth SAA ei hun oedd y ffordd orau i sefydlu gwaith ar y cyd, oherwydd natur 'fyw' y broses SAA, gydag adroddiadau yn darparu 'ciplun' yn unol â chyrchnodau dyheadol yn bennaf yn hytrach na data caled a gweithredoedd.

Bellach, mae gan LLUK gyfle i weithredu fel y cyswllt neu frocer rhwng ochrau cyflenwi a galw sgiliau'r Rhwydwaith Sgiliau ar gyfer Busnes (RhSB) (neu CCSS – Cynghrair y Cynghorau Sgiliau Sector).

LLUK oedd cadeirydd Grŵp Diwygio'r Ochr Gyflenwi a fydd o bosibl yn parhau wrth i'r CCSS newydd gael ei sefydlu. Trwy fywyd yr Adolygiad Effaith, mae LLUK wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â nifer o CSS ar brosiectau amrywiol – rhai yn amlwg yn gysylltiedig â chanfyddiadau'r Adolygiad Effaith. Amlinellir isod, rhai enghreifftiau o arfer da'r gwaith ar y cyd sydd wedi digwydd.

Arfer da wrth weithio mewn partneriaeth – dod â chyflenwad a galw at ei gilydd dros y Rhwydwaith Sgiliau ar gyfer Busnes

Recriwtio gweithwyr adeiladu profiadol fel tiwtoriaid posibl

Roedd yr ymgyrch *'Pass On Your Skills'*, a lansiwyd yn yr Alban yn haf 2007, yn annog pobl dros 50 mlwydd oed a oedd yn chwilio am newid gyrfa i ailhyfforddi fel tiwtoriaid. Wedi'i ariannu gan Lywodraeth yr Alban fel rhan o fenter ehangach wedi'i hanelu at weithwyr hŷn, roedd yr ymgyrch yn cael ei redeg gan bedwar cyngor sgiliau sector (*Asset Skills, Construction Skills*, LLUK a *Summitskills*) ac yn cael ei hadeiladu ar gynllun tebyg yn Lloegr.

Ar ôl dechrau recriwtio ym mis Medi, ymunodd 33 o bobl â phrofiad helaeth o ddiwydiant, un o bedair rhaglen blasu ar gyfer tiwtoriaid adeiladu a oedd yn cael eu rhedeg gan golegau'r Alban ledled yr Alban ym mis Tachwedd 2007. Anfonwyd 100 o becynnau dysgu o bell at unigolion a oedd yn methu mynychu'r cwrs blasu.

'Mae gwybodaeth sectorol cyfunol y gwahanol CSS yn elfen hanfodol wrth sicrhau bod y prosiect yn bodloni anghenion colegau'r Alban a'r sectorau sydd ynghlwm yn llwyddiannus.'

Christine Fitton
Cyfarwyddwr Cenedlaethol yr Alban, LLUK

'Un o'n heriau mwyaf yw sicrhau bod gan ddechreuwyr newydd a gweithwyr presennol, fynediad at hyfforddiant a fydd yn cyflwyno'r sgiliau iawn.'

Graeme Ogilvy
Cyfarwyddwr yr Alban, Construction Skills

'Rydym ni'n gosod galw uchel ar golegau, ond ar yr un pryd, yn cydnabod y gallwn ni gynorthwyo'r ochr addysgu trwy sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu hyfforddi gan bobl â sgiliau cyfredol yn ein sector. Mae pob un ohonom yn gweithio gyda'n gilydd i gyflawni'r un peth yn y pen draw.'

Ian Stirrat
Rheolwr Gweithredoedd yr Alban, Summitskills

Datblygu Diploma 14-19 mewn Gwasanaethau Cyhoeddus

Mae LLUK ym Mhartneriaeth Datblygu Diploma ar gyfer y Ddiploma 14-19 mewn Gwasanaethau Cyhoeddus, ynghyd ag Asset Skills, Sgiliau Llywodraeth a Sgiliau er Cyfiawnder.

'Mae addysg uwch yn bwysig iawn i ddiplomâu gan ei fod yn bwysig eu bod yn cynnig llwybrau i addysg uwch yn ogystal â chyflogaeth. Mae LLUK yn bartner arbennig o ymroddedig a all gynnig persbectif i ni o safbwynt cyflwyno diplomâu yn ogystal â gweithio yn y sector cyhoeddus.'

Lis Martin
Cydlynydd Polisi, Sgiliau er Cyfiawnder

'Mae'r holl CSS sydd ynghlwm yn 'edrych ymhellach' i weld beth sy'n ofynnol i wneud y cymhwyster yn llwyddiannus. Nid oes unrhyw amheuaeth eu bod ni'n gweithio gyda'n gilydd yn effeithiol fel partneriaeth.'

David Bell
Cyfarwyddwr Cymwysterau a Polisi, Asset Skills

Rhoi blas i staff addysg bellach ar weithio yn y diwydiant moduro

Mae *Business Interchange* yn un o bedwar prosiect sy'n rhan o'r Rhaglen Catalydd – prosiectau recriwtio ar gyfer y sector addysg bellach yn Lloegr. Wedi'i ariannu gan yr Adran Arloesedd, Prifysgolion a Sgiliau (DIUS), bydd *Business Interchange* yn darparu hyd at 800 lleoliad ar gyfer tiwtoriaid addysg bellach i weithio am gyfnod o amser mewn diwydiant er mwyn diweddaru eu sgiliau a mynd â syniadau newydd yn ôl i'r ystafell ddosbarth. Mae *Automotive Skills* yn gweithio gyda LLUK ar *Business Interchange* i ddarparu arbenigedd y sector i sicrhau bod lleoliadau'r tiwtoriaid yn briodol i anghenion y diwydiant moduro.

'Mae'r cynllun wedi'i ddylunio er mwyn bod o fudd i athrawon, hyfforddwyr a thiwtoriaid, yn ogystal â busnesau sy'n gweithredu fel cynhalwyr. Yn ddibynnol ar ba mor hir y maent gyda chyflogwr, dylai staff addysg bellach fod yn gallu cynnig cefnogaeth ymarferol ar yr un pryd â datblygu sgiliau newydd.'

Alan Clarke
Rheolwr Ymrwymiad Sectorau, Rhaglen Catalydd, LLUK

'Rydym ni'n awyddus iawn i fod yn un o'r CSS cyntaf i fod yn ymglymedig â'r rhaglen ac yn gweithio'n agos gyda LLUK i'w wneud yn llwyddiant.'

Adrian Lawson
Rheolwr Datblygu ar gyfer Gwella Ansawdd, Automotive Skills

Cynorthwyo hyfforddwyr yr heddlu i ennill cymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol

Datblygodd LLUK Fframwaith Cymwysterau Athrawon newydd ar sail credyd, yn 2007. Gan weithio gyda Sgiliau er Cyfiawnder, nododd LLUK y gallai'r cymwysterau newydd hyn gael eu cymhwyso yng ngwasanaeth yr heddlu ac o bosibl, ar draws sectorau eraill y DU.

'Mae'r gyfres o gymwysterau yn y system addysg bellach yn ddelfrydol ar gyfer eu defnyddio mewn sectorau eraill. Gan eu bod yn seiliedig ar unedau a chredyd, gallwn eu cyd-destunoli i fodloni gwahanol anghenion.'

Angela Joyce
Rheolwr Fframwaith Cymwysterau Athrawon, LLUK

'Mae'r Tystysgrif Dysgu yn y sector Dysgu Gydol Oes (CTLLS) yn rhoi'r cyfle i hyfforddwyr yr heddlu ennill cymhwyster sy'n rhan o fframwaith cenedlaethol. Pan fydd hyfforddwyr yn gweithio yng ngwasanaeth yr heddlu, bydd ganddynt rywbeth sydd hefyd yn drosglwyddadwy i sectorau eraill.'

Sue Hunter
Rheolwr Safonau, Cymwysterau a Fframweithiau, Sgiliau er Cyfiawnder

Datblygu Fframwaith Cymwysterau Integredig ar gyfer gweithlu plant

Mae LLUK yn aelod o Rwydwaith Gweithlu Plant, a'i aelodau yw Sgiliau Creadigol a Diwylliannol, SkillsActive, Sgiliau ar gyfer Iechyd a Sgiliau er Cyfiawnder ac maent ynghlwm wrth gynorthwyo i ddatblygu fframwaith cymwysterau integredig (IQF) ar gyfer y gweithlu plant. Credir bod hyd at dair miliwn o weithwyr yn Lloegr yn unig yn treulio o leiaf rhan o'u swydd yn gweithio gyda phlant. Gweinyddir y rhwydwaith gan Gyngor Datblygu Gweithlu Plant ac hefyd yn cynnwys yr Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion, a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

'Rydym ni'n falch ein bod ni'n cynorthwyo i ffurfio'r IQF, fel ein bod ni'n gallu nodi sgiliau a gwybodaeth gyffredin ar draws y gweithlu plant a darparu gwell cyfleoedd i staff ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.'

Angela Joyce
Rheolwr Fframwaith Cymwysterau Athrawon, LLUK

'Mae ychydig o waith LLUK ymhell o flaen unrhyw beth y mae unrhyw un arall wedi'i wneud. Mae'n gyngor sector sgiliau pwysig iawn i weithio ar brosiect o'r raddfa hon.'

Tanny Stobart
Ymgynghorydd gyda SkillsActive

Cynnig cymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol i hyfforddwyr yn y lluoedd arfog

Mapiodd y Weinyddiaeth Amddiffyn ei gwrs 'hyfforddi amddiffyn yr hyfforddwr' presennol yn erbyn Tystysgrif Addysgu yn y Sector Dysgu Gydol Oes (CTLLS) newydd LLUK. Ychwanegwyd unedau dewisol mewn hyfforddi a mentora, a deall arddulliau dysgu, at y cymhwyster. Bydd y gwaith hwn yn cael effaith ar draws y DU.

'Mae gennym ni ddyletswydd i sicrhau bod y bobl rydym ni'n eu hyfforddi fel hyfforddwyr yn ennill cymhwyster sy'n rhoi'r cyfle iddyn nhw weithio mewn sector fel addysg bellach, ar ôl iddynt adael y lluoedd arfog.'

Is-gomander McMullan
Swyddog y Llynges Frenhinol, Adran Personél y Weinyddiaeth Amddiffyn

Y camau nesaf

Mae'r Adolygiad Effaith wedi bod yn ymarfer gwerthfawr sy'n galluogi LLUK i ddeall graddfa'r gweithgaredd mewn cytundebau sector sgiliau a fydd yn cael effaith ar y gweithlu y mae'n ei gynrychioli. Darparodd gyfres o themâu y gallai trafodaethau ganolbwyntio ar feysydd cydweithio posibl, a fyddai'n cynorthwyo'r ochr gyflenwi fodloni'r galw am hyfforddiant sgiliau oddi wrth y sectorau eraill.

Mae tirwedd sgiliau yn newid ar hyn o bryd. Mae cyfle, gyda chreu'r Comisiwn Cyflogaeth a Sgiliau (UKCES) a Chynghrair y Cynghorau Sector Sgiliau (TASSC) ar gyfer LLUK, ynghyd â'r Rhwydwaith Sgiliau ar gyfer Busnes i weithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ddyblygiad o ymdrechion a bod arbenigedd yn cael ei gronni ar draws y rhwydwaith i alluogi'r sectorau dysgu a sgiliau fodloni'r galw oddi wrth y sectorau eraill.

Dyma rai awgrymiadau posibl ar gyfer y dyfodol:

> parhau i gadeirio Grŵp Diwygio'r Ochr Cyflenwi ar ran y rhwydwaith

> LLUK i ymgorffori'r angen i ymgynghori gyda CSS eraill yn eu cylch cynllunio wrth ddatblygu rhaglenni newydd

> cynhyrchu offeryn cynllunio er mwyn cynorthwyo CSS i ddeall effaith eu gwaith ar y gweithlu dysgu gydol oes a sut y mae hyn yn cysylltu â rhaglen waith LLUK

> parhau i nodi mentrau posibl i weithio arnynt mewn partneriaeth

Am fwy o wybodaeth

Am fwy o wybodaeth ar Gytundeb Sgiliau Sector a rhaglenni gwaith LLUK, ac ar y Sector Dysgu Gydol Oes, ewch i'n gwefan www.lluk.org

Am fwy o wybodaeth ynglŷn â sut y gallai eich sefydliad weithio gyda LLUK ar unrhyw un o'r meysydd a grybwyllir yn yr adroddiad hwn neu ar fenter newydd, cysylltwch â ni ar enquiries@lluk.org.

sgiliau
AR GYFER BUSNES

Rhan o rwydwaith Sgiliau ar gyfer Busnes o 25
Cyngor Sgiliau Sector a arweinir gan gyflogwyr

DYSGU
GYDOL OES
yn y DU

Sgiliau i Broffesiynolion Dysgu

5th Floor, St Andrew's House
18-20 St Andrew Street
London EC4A 3AY

T 0870 757 7890
F 0870 757 7889

www.lluk.org
enquiries@lluk.org